**CO2i – Arbed Ynni yn y Cartref**

Pecyn Adnoddau i hyrwyddo arbed ynni yn y cartref, ac i ddiogelu lles deiliaid cartrefi.

## Cynnwys:


**Pennod 1** Datganiad o bwrpas – nodau ac amcanion y Cynllun

**Pennod 2** Rhag-ystyriaethau cyn gweithredu'r Cynllun

**Pennod 3** Gweithredu Cynllun Carbon Deuocsid

Atodiad 1 Datganiad Newyddion

Atodiad 2 CO2i Matrix

Atodiad 3 Cais am Grant Gwaith Mân

Atodiad 4 Llythyr Cymeradwyaeth

Atodiad 5 Ffurflen Hawlio ar gyfer Grant Gwaith Mân

Atodiad 6 Llythyr a Deiliad

# Pennod 1

# CO2i – Arbed Ynni yn y Cartref

## Rhagarweiniad – nodau ac amcanion y Cynllun

### Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd prif themâu Her Iechyd Cymru am eu bod yn cael eu hystyried i fod yn faterion sy'n cyfrannu at lawer o'r gwaeledd iechyd y gellid ei osgoi. Hybu lles yw egwyddor sylfaenol Her Iechyd Cymru, ac atal Damweiniau ac Anafiadau yw un o'i phrif themâu. Mae'r ymyriad hwn yn gwella amodau tai drwy annog pobl i ddefnyddio llai o ynni yn y cartref, tra'n mynd i'r afael â'r nifer uchel o farwolaethau dros y gaeaf ymhlith pobl oedrannus a diymgeledd drwy hyrwyddo cartrefi ynni effeithlon, fel y gall pobl hŷn gadw'n gynnes, a hefyd i leihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau ac anafiadau sy'n digwydd o ganlyniad i godymau ymhlith yr henoed sy'n dioddef o'r oerni.

2. Mae effaith andwyol yr oerni ar bobl oedrannus yn hysbys i lawer, ac wedi ysgogi datblygiad nifer o gynlluniau gan y llywodraeth. Mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn tybio bod gymaint â 30,000 o bobl yn marw'n ddiangen dros y gaeaf oherwydd yr oerni. Cyfrifir marwolaethau diangen dros y gaeaf yn ôl y cynnydd yn y nifer sy'n marw yn ystod pedwar mis y gaeaf rhwng Rhagfyr a Mawrth, o'i gymharu â gweddill y flwyddyn. Mae'r adran yn nodi bod 'tua hanner y marwolaethau diangen yn y gaeaf yn digwydd oherwydd CHD neu strôc. Mae tua chwarter yn digwydd oherwydd afiechyd resbiradol. Mae'r gwaed yn tewychu mewn tywydd oer ac yn arafu'r cylchrediad gwaed. Nodir hefyd mai'r tymheredd delfrydol mewn ystafell fyw i bobl hŷn yw tua 21°C. Unwaith y mae tymheredd yr ystafell yn dechrau disgyn, mae'r perygl o salwch resbiradol, strôc, trawiad ar y galon a hypothermia yn cynyddu. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi oer, mae'r Llywodraeth yn talu Taliadau Tanwydd Gaeaf, a ddyfeisiwyd i sicrhau bod yr henoed yn gallu cadw'n gynnes dros y gaeaf.

3. Mae Llywodraeth y DU yn gwario dros £1.6 biliwn y flwyddyn ar Daliadau Tanwydd Gaeaf i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu gwresogi eu cartrefi dros y gaeaf. Mae Taliadau Tanwydd Gaeaf yn werth £200 (£300 i rai dros 80 oed) ac yn cael eu talu ym mis Rhagfyr i dros 8 miliwn o gartrefi sydd â deiliaid dros 60 oed[1]. Mae y rhan fwyaf o bobl oedrannus ym Mhrydain yn byw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Yn ôl Arolwg Cyflwr Tai Lloegr ym 1993, roedd 10% o bobl dros 65 oed yn byw yn y categori tai gwaethaf. Er bod hyn yr un gyfran ag yng ngweddill y boblogaeth, mae hynny'n tua 700,000 o gartrefi.[2] Mae rhai pobl oedrannus yn anwybyddu gwaith trwsio sydd angen ei wneud ar eu cartrefi, ac mae grantiau yn cael eu rhoi anamlaf i bobl dros 75 oed. Mewn nifer o achosion, mae'r henoed yn byw mewn tai sy'n darparu mwy o le na'r hyn sydd ei angen arnynt, ac sydd angen gwaith cynnal a chadw arnynt. Mae tanfeddiannaeth wedi'i gysylltu ag incwm is oherwydd mae'n debyg mai incwm dim ond un person sy'n cyfrannu at gostau gwresogi.

---

[1] Ffigurau'r Adran Masnach a Diwydiant 2004

[2] Adran yr Amgylchedd. Arolwg Cyflwr Tai Lloegr 1991. Llundain: Y Llyfrfa, 1993

4. Lle mae pobl yn byw ar ben eu hunain mewn tŷ mawr, maent yn tueddu i wresogi dim ond un neu ddwy o ystafelloedd sy'n arwain at dymheredd is yn gyffredinol, a mwy o anwedd. Fel rheol, mae gan deuluoedd mwy dai cynhesach ac mae gan bobl sengl gartrefi oerach[3] . Mae cysylltiad rhwng tai heb wres canolog a mwy o farwolaethau yn y gaeaf, sy'n awgrymu bod tymheredd yn ffactor[4]. Ceir tua 2% o farwolaethau diangen am bob gradd Celsius is mewn tymheredd awyr agored o dan 19°C, a chynnydd o 1.5% yn y siawns o farw yn y gaeaf am bob 1°C is mewn tymheredd cyfartalog 24 awr yn y gaeaf. Mae'r cynnydd mewn marwolaethau yn digwydd amlaf mewn tai sy'n debygol o gael y tymheredd dan do isaf oherwydd effeithlonrwydd thermol gwael[5].

5. Mae pobl hŷn ddiymgeledd yn gyfoethog mewn asedau, ac yn berchen yn aml ar eiddo sy'n werth llawer, ond yn ariannol dlawd, gan ddibynnu ar eu pensiwn i fyw[6]. Mewn nifer o achosion, mae'r gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei anwybyddu yn waith a fyddai'n arwain at ddefnyddio llai o ynni, fel inswleiddio'r atig, atal drafftiau a gwasanaethu neu adnewyddu bwyler aneffeithlon.

6. Nod y cynllun hwn, CO2i (*Cosy* yn Saesneg) yw hybu lles drwy hyrwyddo arbed ynni yn y cartref. Mae'n rhoi grantiau i gartrefi sy'n cymhwyso yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ar gyfer gwaith fel inswleiddio'r atig a waliau ceudod, atal drafftiau ac i brynu bwyleri ynni effeithlon. Drwy ei gwneud yn rhatach i bobl ddiymgeledd gadw'n gynnes, mae'n rhoi sylw i un o brif achosion marwolaethau diangen dros y gaeaf, ac yn lleihau'r perygl y bydd pobl oedrannus yn cael codwm neu ddamwain yn eu cartrefi dros y gaeaf. Mae hefyd yn lleihau gollyngiadau carbon yn unol â thargedau'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref.

---

[3] Fuel Poverty and Older People. Gwylfa Iechyd y Cyhoedd Canolbarth Gorllewin Lloegr.

[4] Aylin P, Morris S, Wakefield J, Grossinho A, Jarup L, a Elliott P (2001) Temperature, housing, deprivation and their relationship to excess winter mortality in Great Britain, 1986 – 1996. *International Journal of Epidemiology* 30: 1100-1108

[5] Wilkinson P, Landon M, Armstrong B, Stevenson S, Pattenden S, Mckee M, & Fletcher T (2001) Cold Comfort. The social and environmental determinants of excess winter death in England 1986-96. The Policy Press, Bryste.

[6] Caring for Older People: Homes and Housing for Elderly People. Wanklyn P BMJ 1996;313:218-221(27 Gorffennaf)

# Pennod 2

# CO2i – Arbed Ynni yn y Cartref

## Gweithredu'r Cynllun

### 1. Ystyriaethau cychwynnol

Rhaid meddwl yn gyntaf am yr ystyriaethau cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn, sef;

- Pwy yw'r grŵp targed?
- A fydd y canlyniad yn cael yr effaith sy'n ddymunol?
- Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
- Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y cynllun?
- Sut y bydd y cynllun yn cael ei werthuso?
- A fydd y cynllun yn rhoi gwerth am arian?

### 2. Y Grŵp Targed

Y grŵp a fydd yn elwa o'r cynllun hwn yw pobl oedrannus a diymgeledd sy'n byw ar eu pen eu hunain neu mewn tai rhent preifat. Ceir cysylltiad uniongyrchol rhwng tai oer a mwy o farwolaethau dros y gaeaf, a, fel a drafodir ym Mhennod 1, mae pobl oedrannus a diymgeledd yn fwy tebygol o fyw mewn tai wedi eu tanfeddiannu sydd angen gwaith cynnal a chadw arnynt, ac, felly, nhw yw'r grŵp a fydd yn elwa fwyaf o'r ymyriad hwn.

### 3. Sicrhau'r effaith sy'n ddymunol

Pwrpas y cynllun yw gwella arbed ynni yn y tai sy'n cael eu meddiannu gan y grŵp targed. Cafodd hyn ei wneud yn y prosiect peilot drwy roi grantiau ar gyfer:

- Inswleiddio'r atig (hyd at 275 mm)
- Inswleiddiad ychwanegol ar gyfer yr atig
- Inswleiddio waliau ceudod (gleiniau neu ffibr)
- Atal drafftiau o gwmpas ffenestri a drysau allanol
- Siacedi tanciau dŵr poeth
- Paneli i adlewyrchu gwres rheiddiaduron (ar gyfer tai waliau solid yn unig)
- Rheolyddion gwresogi gan gynnwys thermostat ystafell rhaglenedig PRT1 Horstmann Thermoplus sydd wedi'i ddyfeisio'n arbennig ar gyfer person oedrannus a / neu anabl
- Bwyleri cywasgu gradd 'A' (yn lle bwyleri SEDBUK gradd 'D' neu lai, neu fwyler diffygiol / wedi torri).

Pwrpas trwsio neu adnewyddu yw gwella effeithlonrwydd ynni y cartref, gan felly sicrhau ei fod yn cadw ei wres yn well. Bydd natur gyfnewidiol y tymheredd awyr agored, felly, yn cael llai o effaith ar y tu mewn i'r eiddo, a bydd y person hŷn yn gynhesach am yr un buddsoddiad ariannol mewn tanwydd.

### 4. Cyrraedd y grŵp targed

Yn y prosiect peilot, cafodd y prosiect ei farchnata fel cynllun awdurdod cyfan, ond ei dargedu yn yr ardaloedd lle tybiwyd oedd fwyaf ei angen. Cyrhaeddwyd y grŵp targed, sef pobl oedrannus a diymgeledd, drwy broses dau gam. Y cam cyntaf oedd nodi ym mha ardaloedd oedd yr angen mwyaf drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005. Cafodd ardaloedd a oedd yn cynnwys dau 'barth' neu fwy (ac eithrio tai) o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2000 (tai, iechyd ac incwm) a 2005 (iechyd, incwm a chyflogaeth) eu dewis fel ardaloedd targed. Ar ôl nodi'r ardaloedd, cafodd y cynllun ei hybu drwy ganfasio o ddrws i ddrws gyda llythyr cymeradwyo gan yr awdurdod lleol yn cyflwyno'r cynllun. Aeth yr awdurdod lleol hefyd ati i gysylltu gyda pherchnogion tai drwy bostio taflenni'n uniongyrchol atynt.

Roedd gan yr awdurdod peilot ymgyrch farchnata i hyrwyddo'r cynllun. Roedd y cynllun marchnata yn cynnwys:

- Rhif di-dâl i'r Ganolfan Cynghori ar Effeithlonrwydd Ynni, lle gallai galwyr dderbyn cyngor ar y cynllun, a chael eu cyfeirio ymlaen yn syth i'r contractwyr ar gyfer trefnu arolwg o'u tai,
- Datganiadau i'r wasg ac erthyglau golygyddol mewn papurau newydd lleol,
- Datganiadau i'r wasg ac erthyglau hys-bys yn y Bwletin Aelodau, ac ar Fewnrwyd y Cyngor
- Hysbysiadau i
    - Gynghorau Cymuned
    - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
    - Gofal a Thrwsio Powys
    - Asiantaeth Ynni Canolbarth Cymru
    - NEA Cymru

Gallai unrhyw un sy'n penderfynu mabwysiadu'r cynllun hefyd ystyried defnyddio asiantaethau sy'n cael cyswllt uniongyrchol â'r grŵp targed, fel y Gwasanaeth Pryd ar Glud, meddygfeydd lleol, a Chanolfannau Gofal Dydd a Chymunedol, a allai ddarparu gwybodaeth am y cynllun.

## 5. Pwy yw'r Prif Bartneriaid ?

Y prif bartneriaid yn y prosiect peilot oedd yr awdurdod lleol, contractwyr arbenigol a oedd wedi cytuno i gael eu fetio, y Ganolfan Cynghori ar Ynni leol, Gofal a Thrwsio a Chyflenwyr Ynni, drwy eu cyllid 'Ymrwymiad i Arbed Ynni'. Roedd adrannau Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol hefyd yn bartneriaid.

## 6. Sut y bydd y cynllun yn cael ei werthuso?

Cafodd llwyddiant y cynllun gyda chyrraedd y grŵp targed ei werthuso drwy broffilio'r ymgeiswyr o ran Oed / Rhyw / Incwm / Statws.

Cafodd llwyddiant yr ymyriad o ran ei effaith ar gartrefi unigol ei werthuso drwy gymharu biliau ynni'r tai cyn ac ar ôl i'r gwaith gael ei wneud, a ddangosodd y manteision o ran llai o kWh yn cael ei ddefnyddio, ac o ran biliau ynni is gan y cyfranogwyr unigol.

Er bod gwerthuso'r cynllun mewn termau defnyddio ynni ac ariannol pur yn gymharol hawdd, mae'n anoddach ei werthuso o ran faint o farwolaethau diangen dros y gaeaf a gafodd eu hatal. Er mae'n debyg y bydd y cynllun yn cyfrannu at lai o farwolaethau diangen dros y gaeaf, mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at leihad neu gynnydd yn y cyswllt hwn, a byddai didoli effaith y cynllun hwn bron yn amhosibl. Nid yw cofnodi faint o'r grŵp targed a dderbyniwyd i'r ysbyty yn dioddef o hypothermia neu gyflyrau oherwydd oerni difrifol yn ddigon cyson ar sail holl-Gymru inni fedru gwneud cymhariaeth Cymru gyfan o'r ffigurau, fodd bynnag gellid ystyried defnyddio'r data a gesglir gan ysbytai lleol sydd efallai'n cofnodi yn fwy cyson. I bwrpas gwerthuso, gellir casglu a chymharu'r ffigurau hyn cyn yr ymyriad a thros yr un cyfnod wedyn, er y bydd angen cymharu cyfnodau tebyg a chyfiawnhau'r ffigurau gydag unrhyw ddylanwadau allanol perthnasol, e.e. cyfnodau hir o dywydd oer difrifol, ac ati. Byddai'n rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddyfynnu'r ffigurau hyn, gan mai dangosol yn unig a fyddent.

Mantais arall y cynllun yw'r effaith ar argraffiadau'r grŵp targed, a fyddai efallai'n ystyried eu hunain i fod yn fwy cyffyrddus yn ariannol na chyn yr ymyriad. Mae gwell iechyd meddwl a lles yn un o themâu allweddol Her Iechyd Cymru, ac mae teimlad o les gwell yn un o'r mesuriadau gwerthuso gwrthrychol. Gellir mesur hyn drwy holiadur cyn ac ar ôl yr ymyriad, yn gofyn am farn y cyfranogwyr ynghylch pa mor gyffyrddus yw eu cartref cyn ac ar ôl i'r gwaith gael ei wneud, a'u barn ynghylch sut yr effeithiodd ar eu hiechyd a'u lles yn gyffredinol. Byddai'r canlyniadau yn goleuo'r camau nesaf, er y byddai'n rhaid eu dyfynnu fel rhai dangosol yn unig gan eu bod yn seiliedig ar farn wrthrychol y cyfranogwyr.

**7. A fydd y cynllun yn rhoi gwerth am arian?**

Yn y prosiect peilot, cyfrannodd yr awdurdod lleol lai na 50% o gost yr ymyriad, gyda gweddill y cyllid yn dod gan ffrydiau cyllid eraill, fel grantiau. Amcangost y prosiect peilot oedd £1,369,860, ac achoswyd y gwariant dros gyfnod o 6 mis. Gyda'r arian hwn, llwyddwyd i osod 11,318 o ddyfeisiau arbed ynni mewn 1863 o gartrefi.

Daethpwyd o hyd i'r cyllid ar gyfer y prosiect peilot fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyflenwyr Ynni gydag Ymrwymiad Arbed Ynni | £398,275.00 | 29% |
| Clear Skies Adran Diwydiant a Masnach | £ 32,400.00 | 2% |
| Awdurdod Lleol | £582,706.00 | 43% |
| Cyfraniadau Preifat | £356,479.00 | 26% |

O ystyried bod y gost i'r awdurdod lleol yn llai na 50% o'r cyfanswm, a bod ystod eang o welliannau gwerthfawr wedi eu gwneud i nifer fawr o gartrefi, gyda'r effaith bosibl o wella iechyd ac ansawdd bywyd eu preswylwyr, awgrymir bod y cynllun hwn yn sicr yn rhoi gwerth am arian.

# Pennod 3

# CO2i – Arbed Ynni yn y Cartref – Gweithredu'r Cynllun

### Y Cynllun

Mae'r Cynllun Carbon Deuocsid (CO2i) yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Powys, cyflenwr ynni a chontractwyr arbenigol. Mae'n becyn ymarferol o welliannau arbed ynni a ddyfeisiwyd i wella iechyd a lles preswylwyr drwy roi cartrefi cynhesach iddynt, a thai sy'n rhatach i'w gwresogi. Mae'r cynllun hefyd yn lleihau gollyngiadau carbon.

## Yr Ymgyrch

Cyn dechrau'r cynllun, mae angen penderfynu ynghylch pa gartrefi sy'n gymwys ar ei gyfer, a pha waith a fyddai'n cael ei ariannu. Yn y prosiect peilot, penderfynwyd cymhwyster fel a ganlyn:

Cymhwyster Preswylwyr:

- *Ar gael i berchen-feddianwyr neu denantiaid rhent preifat (gyda chaniatâd ysgrifenedig y landlord) yn unig.*
- *18 a throsodd – uchafswm grant o £500 ar gyfer gwaith inswleiddio a gwresogi*
- *18 a throsodd – uchafswm grant o £1000 ar gyfer gwres dŵr poeth solar (ar gyfer systemau a osodir yn broffesiynol lle mae'r deiliad hefyd yn ymgeisio am grant 'Clear Skies' yr Adran Masnach a Diwydiant).*

Gwaith sy'n gymwys:

- *Inswleiddio'r atig (hyd at 275 mm)*
- *Inswleiddiad ychwanegol ar gyfer yr atig*
- *Inswleiddio waliau ceudod (gleiniau neu ffibr)*
- *Atal drafftiau o gwmpas ffenestri a drysau allanol*
- *Siacedi tanciau dŵr poeth*
- *Paneli i adlewyrchu gwres rheiddiaduron (ar gyfer tai waliau solid yn unig)*
- *Bwyleri cywasgu gradd 'A' (yn lle bwyleri SEDBUK gradd 'D' neu lai, neu fwyler diffygiol / wedi torri).*
- *Rheolyddion gwresogi gan gynnwys thermostat ystafell 'rhaglenedig' PRT1 Horstmann Thermoplus sydd wedi'i ddyfeisio'n arbennig ar gyfer person oedrannus a / neu anabl*
    - *Falfiau rheiddiaduron thermostatig*
    - *Thermostatau ystafell 'rhaglenedig'*
    - *Rhaglenwyr*
- *Paneli Dŵr Poeth Solar*

Mae'n hanfodol casglu rhestr o gontractwyr at ei gilydd a fydd yn cael eu defnyddio fel 'contractwyr cymeradwy' ar gyfer y cynllun. Mater i'r partneriaid lleol fydd penderfynu ar y meini prawf ar gyfer dethol, ond awgrymir ei bod yn bwysig bod y dull o ddethol contractwyr yn glir ac agored. Bydd hefyd angen penderfynu'r drefn ar gyfer ymgeisio. Yn y prosiect peilot, gwahoddwyd deiliaid tai i gysylltu â'r Ganolfan Cynghori ar Effeithlonrwydd Ynni. Cyn dechrau'r ymgyrch, awgrymir y gellir sbarduno diddordeb pobl drwy roi hysbysiadau yn y wasg leol ( *Atodiad 1*) a delio gydag ymholiadau ynghylch inswleiddio neu wresogi neu ddŵr poeth solar mewn gwahanol ffyrdd, fel a eglurir.

Ar gyfer ymholiad ynghylch inswleiddio:

- *Mae'r Ganolfan Gynghori yn cyfeirio'r ymgeisydd yn syth at y contractwr, sy'n trefnu arolwg o'r eiddo*
- *Yn dilyn yr arolwg, bydd y contractwr yn defnyddio'r 'Matrics' (dengys Atodiad 2 y matrics a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot) i benderfynu beth fydd cyfraniad 'Ymrwymiad Arbed Ynni' y Cyflenwr Ynni, y grant a roddir gan yr Awdurdod Lleol a chyfraniadau'r deiliaid tai, ac yn helpu i lenwi'r ffurflen gais y bydd y contractwr yn dod gyda fo i'r safle (dangosir y ffurflen a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot yn Atodiad 3). Dylid cytuno ar gost yr holl fesurau gwaith cyn i'r Awdurdod Lleol ddechrau cyflwyno'r cynllun.*
- *Mae'r contractwr yn cyflwyno'r ffurflen gais a'r amcanbris i'r awdurdod lleol*
- *Ar ôl derbyn 'Cais Llawn' boddhaol, bydd y swyddfa grantiau yn anfon llythyr 'cymeradwyo' (Atodiad 4) sy'n rhoi caniatâd i'r gwaith ddechrau – ynghyd â 'Ffurflen Hawlio'*
- *Unwaith y mae'r gwaith wedi'i gwblhau a deiliad y cartref yn fodlon, mae'n llenwi Ffurflen Hawlio (Atodiad 5) ac yn ei dychwelyd, ynghyd ag 'anfoneb' y contractwr, i'r swyddfa grantiau*
- *Ar ôl derbyn anfoneb a Ffurflen Hawlio foddhaol, bydd y grant yn cael ei ryddhau i'r ymgeisydd neu, os gofynnir am hynny, yn uniongyrchol i'r contractwr.*

Ar gyfer ymholiad ynghylch gwresogi neu ddŵr poeth solar:

- *Bydd y Ganolfan Gynghori yn anfon 'Ffurflen Gais' (wedi ei rhifo a'i dyddio'n unigol) ynghyd â rhestr o 'Gontractwyr Lleol' a 'Llythyr Eglurhaol' at ddeiliad y cartref (Atodiad 6)*
- *Mae gan ddeiliad y cartref amser penodol i ddychwelyd y Ffurflen Gais, ynghyd ag 'amcanbris' boddhaol gan y contractwr a ddewisir ganddynt, i'r swyddfa grantiau berthnasol – ar ôl yr amser hwn ni fydd y ffurflen gais yn ddilys.*
- *Ar ôl derbyn 'Cais Llawn' boddhaol, bydd y swyddfa grantiau yn anfon llythyr 'cymeradwyo' (Atodiad 4) sy'n rhoi caniatâd i'r gwaith ddechrau – ynghyd â 'Ffurflen Hawlio' (Atodiad 5)*
- *Unwaith y mae'r gwaith wedi'i gwblhau a deiliad y cartref yn fodlon, mae'n llenwi'r Ffurflen Hawlio ac yn ei dychwelyd, ynghyd ag 'anfoneb' y contractwr, i'r swyddfa grantiau*
- *Ar ôl derbyn anfoneb a Ffurflen Hawlio foddhaol, bydd y grant yn cael ei ryddhau i'r ymgeisydd neu, os gofynnir am hynny, yn uniongyrchol i'r contractwr.*

**Goblygiadau adnoddau a chyllido**

Ychydig iawn o gyllid refeniw sydd ei angen ar y prosiect i'w roi ar ben ffordd, ar wahân i amser staff rheoli prosiect a gweinyddol ynghyd â rhywfaint o bapur swyddfa fel a geir yn y swyddfa arferol.

Y cyllid craidd yw'r costau cyfalaf uniongyrchol sy'n cael eu gwario ar y gwelliannau. Isod rhoddir dadansoddiad o'r trefniadau cyllido a ddefnyddiwyd gan y prosiect peilot yn y chwe mis cyntaf.




**Yn dilyn ymlaen o'r prosiect**

Yn ystod chwe mis cyntaf y CO2i peilot, o'r 1,863 o ddeiliaid cartrefi a fanteisiodd ar y cynllun, roedd 47% yn 60 oed neu'n hŷn, roedd 6% yn anabl a 19% yn derbyn budd-daliadau prawf modd. Felly, mae'r cynllun yn amlwg yn lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd £10 miliwn ychwanegol ar gael drwy HEES ar gyfer cartrefi ar draws Cymru lle mae'r deiliaid yn 60 oed neu'n hŷn, ac ar gyfer budd-daliadau neu lwfansau cymwys. Bydd pobl dros 80 oed hefyd yn gymwys ar gyfer y cynllun, beth bynnag yw eu hincwm. Bydd yr adnoddau o'r cynllun hwn, a dargedir at y grwpiau hyn, yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd ymhellach fyth.

Ym Mhowys, lle cafodd y prosiect peilot ei weithredu, sefydlwyd grŵp o'r enw TEEUP (Targedu Manteisio ar Arbed Ynni ym Mhowys). Partneriaeth yw'r grŵp hwn rhwng EAGA, CO2i, Canolfan Cynghori ar Effeithlonrwydd Ynni Canolbarth a De Orllewin Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys. I ddechrau, bydd yn cynhyrchu map o faint o bobl sydd wedi manteisio ar y grantiau HEES a CO2i hyd yma er mwyn gweld ym mha ardaloedd y bu lleiaf o ddefnydd arnynt. Bydd y grŵp hefyd yn ysgrifennu at gartrefi agored i niwed sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol i'w hannog i fanteisio ar grantiau arbed ynni. Yn y modd yma, gwneir ymdrechion targed i gyrraedd y bobl fwyaf anghenus ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. Awgrymir y bydd y rhai sy'n dewis mabwysiadu'r prosiect hwn, sydd wedi profi i fod yn llwyddiant, efallai eisiau ystyried hyn fel cam cyntaf, er mwyn ennill pob mantais o weithredu'r cynllun.

**Atodiad 1**

# Datganiad Newyddion

**PR ****

24/04/06

**I'w ryddhau ar unwaith**

## Grant arbed ynni yn y cartref

Gall preswylwyr ym Mhowys ymgeisio am grant i wneud eu cartrefi yn fwy ynni effeithlon o dan gynllun sydd wedi'i gyflwyno gan y Cyngor Sir.

Bydd grant o hyd at £500 ar gael i gartrefi cymwys ar gyfer gwaith fel inswleiddio'r atig a waliau ceudod, atal drafftiau, a bwyleri gwresogi ynni effeithlon. Gellir hefyd rhoi hyd at £600 ar gyfer systemau dŵr poeth solar.

Cyflwynwyd y cynllun Carbon Deuocsid CO2i, a elwir yn 'Cosy', gan y Cyngor mewn partneriaeth â chontractwyr arbenigol a chyflenwr ynni. Gellir defnyddio'r grantiau sydd ar gael ar ben y rhai sy'n cael eu cynnig eisoes gan y cwmni ynni, sy'n golygu yn y rhan fwyaf o achosion y bydd y gwaith inswleiddio yn rhad ac am ddim ac y bydd preswylwyr yn gallu gwneud arbedion sylweddol ar eu biliau tanwydd.

Mae cyllid ar gael i berchnogion tai a phobl sy'n byw mewn tai rhent preifat (rhaid gofyn am ganiatâd ysgrifenedig y landlord). Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch y Ganolfan Cynghori ar Effeithlonrwydd Ynni yn ddi-dâl ar **0800 512 012**.

DIWEDD

## Atodiad 2

| INSWLEIDDIO'R ATIG 0-250mm (250mm) | Cyflenwr Ynni | | | Gosod CO2i | Grant awdurdod Lleol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG | Pris | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG |
| Fflat 1 llofft | £121.24 | £300.00 | £136.47 | £317 | £196 | £17 | £181 |
| Fflat 2 lofft | £147.49 | £326.25 | £198.18 | £338 | £191 | £12 | £140 |
| Fflat 3 llofft | £173.74 | £352.50 | £289.17 | £359 | £185 | £7 | £70 |
| Ty canol teras / maisonette 2 lofft | £76.00 | £183.40 | £99.46 | £328 | £252 | £145 | £229 |
| Ty canol teras / maisonette 3 lofft | £121.24 | £229.98 | £124.73 | £328 | £207 | £98 | £203 |
| Ty diwedd teras 2 lofft | £83.56 | £191.08 | £101.83 | £328 | £244 | £137 | £226 |
| Ty diwedd teras 3 llofft | £121.24 | £239.62 | £127.70 | £328 | £207 | £88 | £200 |
| Byngalo Semi 2 lofft | £121.24 | £300.00 | £187.50 | £364 | £243 | £64 | £177 |
| Byngalo Semi 3 llofft | £147.49 | £326.25 | £213.75 | £347 | £200 | £21 | £133 |
| Byngalo Sengl 2 lofft | £173.74 | £352.50 | £208.08 | £406 | £232 | £54 | £198 |
| Byngalo Sengl 3 llofft | £199.99 | £378.75 | £235.65 | £433 | £233 | £54 | £197 |
| Byngalo Sengl 4 llofft | £226.24 | £405.00 | £264.54 | £486 | £260 | £81 | £221 |
| Ty Semi 2 lofft | £83.56 | £273.75 | £119.30 | £328 | £244 | £54 | £209 |
| Ty Semi 3 llofft | £121.24 | £300.00 | £137.90 | £328 | £207 | £28 | £190 |
| Ty Semi 4 llofft | £147.49 | £326.25 | £158.03 | £397 | £250 | £71 | £239 |
| Ty Sengl 2 lofft | £121.24 | £300.00 | £136.55 | £374 | £253 | £74 | £237 |
| Ty Sengl 3 llofft | £147.49 | £326.25 | £157.79 | £374 | £227 | £48 | £216 |
| Ty Sengl 4 llofft | £173.74 | £352.50 | £182.07 | £428 | £254 | £76 | £246 |

| INSWLEIDDIO'R ATIG 50-250mm (200mm) | Cyflenwr Ynni | | | CO2i | Grant Awdurdod Lleol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG | Pris | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG |
| Fflat 1 llofft | £22.06 | £22.06 | £22.06 | £262 | £240 | £240 | £240 |
| Fflat 2 lofft | £32.03 | £32.03 | £32.03 | £280 | £248 | £248 | £248 |
| Fflat 3 llofft | £46.74 | £46.74 | £46.74 | £301 | £254 | £254 | £254 |
| Ty canol teras / maisonette 2 lofft | £16.00 | £16.00 | £16.00 | £267 | £251 | £251 | £251 |
| Ty canol teras / maisonette 3 lofft | £20.07 | £20.07 | £20.07 | £283 | £263 | £263 | £263 |
| Ty diwedd teras 2 lofft | £20.91 | £20.91 | £20.91 | £275 | £254 | £254 | £254 |
| Ty diwedd teras 3 llofft | £24.17 | £24.17 | £24.17 | £291 | £267 | £267 | £267 |
| Byngalo Semi 2 lofft | £35.41 | £35.41 | £35.41 | £301 | £266 | £266 | £266 |
| Byngalo Semi 3 llofft | £41.25 | £41.25 | £41.25 | £318 | £277 | £277 | £277 |
| Byngalo Sengl 2 lofft | £37.21 | £37.21 | £37.21 | £349 | £312 | £312 | £312 |
| Byngalo Sengl 3 llofft | £43.32 | £43.32 | £43.32 | £370 | £327 | £327 | £327 |
| Byngalo Sengl 4 llofft | £49.99 | £49.99 | £49.99 | £404 | £354 | £354 | £354 |
| Ty Semi 2 lofft | £20.91 | £20.91 | £20.91 | £275 | £254 | £254 | £254 |
| Ty Semi 3 llofft | £24.17 | £24.17 | £24.17 | £291 | £267 | £267 | £267 |
| Ty Semi 4 llofft | £27.70 | £27.70 | £27.70 | £341 | £313 | £313 | £313 |
| Ty Sengl 2 lofft | £25.71 | £25.71 | £25.71 | £309 | £283 | £283 | £283 |
| Ty Sengl 3 llofft | £29.72 | £29.72 | £29.72 | £328 | £298 | £298 | £298 |
| Ty Sengl 4 llofft | £34.28 | £34.28 | £34.28 | £367 | £333 | £333 | £333 |

# INSWLEIDDIO WC CYN 1976

| INSWLEIDDIO WALIAU CEUDOD | Cyflenwr Ynni | | | CO2i | Grant awdurdod lleol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG | Pris | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG |
| Fflat 1 llofft | £31.79 | £63.81 | £36.75 | **£252** | **£220** | **£188** | **£215** |
| Fflat 2 lofft | £38.31 | £76.91 | £48.50 | **£261** | **£223** | **£184** | **£213** |
| Fflat 3 llofft | £27.25 | £92.89 | £64.77 | **£283** | **£256** | **£190** | **£218** |
| Ty canol teras / maisonette 2 lofft | £27.25 | £103.64 | £60.21 | **£288** | **£261** | **£184** | **£228** |
| Ty canol teras / maisonette 3 lofft | £53.50 | £116.05 | £71.36 | **£306** | **£253** | **£190** | **£235** |
| Ty diwedd teras 2 lofft | £87.40 | £248.75 | £105.77 | **£370** | **£283** | **£121** | **£264** |
| Ty diwedd teras 3 llofft | £120.00 | £275.00 | £125.19 | **£392** | **£272** | **£117** | **£267** |
| Byngalo Semi 2 lofft | £53.50 | £153.05 | £84.69 | **£312** | **£259** | **£159** | **£227** |
| Byngalo Semi 3 llofft | £79.75 | £165.22 | £95.04 | **£312** | **£232** | **£147** | **£217** |
| Byngalo Sengl 2 lofft | £82.58 | £187.35 | £103.03 | **£385** | **£302** | **£198** | **£282** |
| Byngalo Sengl 3 llofft | £89.10 | £202.15 | £115.49 | **£415** | **£326** | **£213** | **£300** |
| Byngalo Sengl 4 llofft | £95.72 | £217.14 | £128.37 | **£461** | **£365** | **£244** | **£333** |
| Ty Semi 2 lofft | £87.40 | £248.75 | £105.77 | **£364** | **£277** | **£115** | **£258** |
| Ty Semi 3 llofft | £120.00 | £275.00 | £125.19 | **£392** | **£272** | **£117** | **£267** |
| Ty Semi 4 llofft | £134.19 | £301.25 | £145.08 | **£427** | **£293** | **£126** | **£282** |
| Ty Sengl 2 lofft | £156.25 | £353.75 | £186.19 | **£525** | **£369** | **£171** | **£339** |
| Ty Sengl 3 llofft | £167.96 | £380.00 | £207.22 | **£525** | **£357** | **£145** | **£318** |
| Ty Sengl 4 llofft | £180.42 | £406.25 | £230.63 | **£582** | **£402** | **£176** | **£351** |

| SIACED TANC DWR POETH | Cyflenwr Ynni | | | CO2i | Grant awdurdod lleol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG | Price | Nwy | Tryd/Glo | Olew/LPG |
| Siaced | £0 | £0 | £0 | **£15** | **£15** | **£15** | **£15** |

| Atal Drafftiau | Pris |
|---|---|
| Drysau (allanol) (yr un) & Agoriad Atig | **£16** |
| **Ffenestri:** | |
| Hyd at 15 uned (yr un) | **£7.90** |
| 16 i 30 (yr un) | **£5.60** |
| 31 a mwy (yr un) | **£5.50** |

**Paneli Adlewyrchu Gwres Rheiddiaduron**
**£16.25 am bob Rheiddiadur**

| INSWLEIDDIO'R ATIG 100-250mm (150mm) | Energy Supplier | | | CO2i | LA Grant | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gas | Elec/Coal | Oil/LPG | Price | Gas | Elec/Coal | Oil/LPG |
| Fflat 1 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£260** | **£260** | **£260** | **£260** |
| Fflat 2 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£260** | **£260** | **£260** | **£260** |
| Fflat 3 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£260** | **£260** | **£260** | **£260** |
| Ty canol teras / maisonette 2 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£237** | **£237** | **£237** | **£237** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ty canol teras / maisonette 3 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £252 | £252 | £252 | £252 |
| Ty diwedd teras 2 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £250 | £250 | £250 | £250 |
| Ty diwedd teras 3 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £264 | £264 | £264 | £264 |
| Byngalo Semi 2 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £289 | £289 | £289 | £289 |
| Byngalo Semi 3 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £307 | £307 | £307 | £307 |
| Byngalo Sengl 2 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £252 | £252 | £252 | £252 |
| Byngalo Sengl 3 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £267 | £267 | £267 | £267 |
| Byngalo Sengl 4 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £412 | £412 | £412 | £412 |
| Ty Semi 2 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £250 | £250 | £250 | £250 |
| Ty Semi 3 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £264 | £264 | £264 | £264 |
| Ty Semi 4 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £300 | £300 | £300 | £300 |
| Ty Sengl 2 lofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £307 | £307 | £307 | £307 |
| Ty Sengl 3 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £326 | £326 | £326 | £326 |
| Ty Sengl 4 llofft | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £364 | £364 | £364 | £364 |

# CWI POST ' 1976

| INSWLEIDDIO WALIAU CEUDOD | Energy Supplier | | | CO2i | LA Grant | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gas | Elec/Coal | Oil/LPG | Price | Gas | :/Coal | Oil/LPG |
| Fflat 1 llofft | £19.74 | £39.33 | £22.79 | £252 | £232 | £213 | £229 |
| Fflat 2 lofft | £23.79 | £47.40 | £29.99 | £261 | £237 | £214 | £231 |
| Fflat 3 llofft | £28.75 | £57.26 | £39.99 | £283 | £254 | £226 | £243 |
| Ty canol teras / maisonette 2 lofft | £31.84 | £63.18 | £37.49 | £288 | £256 | £225 | £251 |
| Ty canol teras / maisonette 3 lofft | £35.68 | £70.74 | £44.25 | £306 | £270 | £235 | £262 |
| Ty diwedd teras 2 lofft | £16.24 | £116.06 | £53.91 | £370 | £354 | £254 | £316 |
| Ty diwedd teras 3 llofft | £42.49 | £129.96 | £70.95 | £392 | £350 | £262 | £321 |
| Byngalo Semi 2 lofft | £39.42 | £94.99 | £50.93 | £312 | £273 | £217 | £261 |
| Byngalo Semi 3 llofft | £42.55 | £121.24 | £57.19 | £312 | £269 | £191 | £255 |
| Byngalo Sengl 2 lofft | £49.07 | £113.24 | £52.30 | £385 | £336 | £272 | £333 |
| Byngalo Sengl 3 llofft | £52.94 | £122.19 | £70.52 | £415 | £362 | £293 | £344 |
| Byngalo Sengl 4 llofft | £56.87 | £131.25 | £83.83 | £461 | £404 | £330 | £377 |
| Ty Semi 2 lofft | £16.24 | £126.74 | £42.49 | £364 | £348 | £237 | £322 |
| Ty Semi 3 llofft | £42.49 | £136.12 | £68.74 | £392 | £350 | £256 | £323 |
| Ty Semi 4 llofft | £68.74 | £145.73 | £94.99 | £427 | £358 | £281 | £332 |
| Ty Sengl 2 lofft | £68.74 | £199.99 | £94.99 | £525 | £456 | £325 | £430 |
| Ty Sengl 3 llofft | £94.99 | £226.24 | £121.24 | £525 | £430 | £299 | £404 |
| Ty Sengl 4 llofft | £121.24 | £252.49 | £147.49 | £582 | £461 | £330 | £435 |

| NODIADAU | Price |
|---|---|
| ***ALl yn cynnwys pob gwaith inswleiddio peipiau, 2 danc a Dp 1 Agoriad Atig*** | |
| Tanc Dwr Ychwanegol | **£11** |
| Agoriad Atig Ychwanegol | **£99** |
| Atig neu Geudod ≤ 25 m2 tâl sefydlog £100 ynghyd â m2 | **£3.85** |
| Atig bynaglo dros 100m2 - unrhyw drwch pob m2 | **£3.85** |

| | | |
|---|---|---|
| Atig ty dros 70m2 - pob m2 | **£3.85** | |
| Unrhyw waliau ceudod eiddo dros 138m2 – pob m2 | **£3.85** | |
| Clirio'r atig (uchafswm 20 mun) cartrefi agored i niwed yn unig | **£25.00** | |
| Fent Waliau Ceudod Ychwanegol | **£36.75** | |
| Falfiau Rheiddiadur Thermostatig | **£38.85** | Not C02i Eligible |
| Thermostat ystafell | **£105.00** | Not C02i Eligible |
| Thermostat ystafell rhaglenedig | **£250.00** | Not C02i Eligible |
| Rhaglennydd | **£250.00** | Not C02i Eligible |

**Atodiad 3**

**Math o Eiddo:**
**Nifer o welyau:**

**Cais am**

**Blwyddyn adeiladu:**
**Tanwydd:**

# GRANT GWAITH MÂN

## Cyngor Sir Powys - Cynllun Carbon Deuocsid ($CO_2$i) 2006 – 07


**Mrs K. Powell**
**Swyddfa Sir**
**Frycheiniog**
**Neuadd Brycheiniog**
**Cambrian Way**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 7HR**
**Ffôn: 01874 612253**

**Mrs Sue Pollard**
**Swyddfa'r Trallwng**
**Neuadd Maldwyn**
**Severn Road**
**Y Trallwng**
**Powys**
**SY21 7AS**
**Ffôn: 01938 551265**

**Mrs Barbara Slimming**
**Swyddfa Sir Faesyfed, (a Llanfair-ym-Muallt)**
**The Gwalia**
**Ithon Road**
**Llandrindod**
**Powys**
**LD1 6AA**
**Ffôn 01597 827255**


---

*Rhaid rhoi'r manylion canlynol **I GYD** a thicio pob un o'r blychau perthnasol ar y ffurflen*

**1.** Enw'r Ymgeisydd:
Mr/Mrs/Miss/Ms (dilëwch fel bo'n briodol) .....
Cyfeiriad:.....
.....
Rhif ffôn:.....

**2.** Dyddiad geni'r ymgeisydd /oed presennol:..... ...../.....**3.** Anabl? Ydw ☐ Nac ydw ☐

**4**. A ydych yn byw yn yr eiddo fel eich unig neu eich prif gartref? Ydw ☐ Nac ydw ☐

**5.** (a) A oes gennych fudd fel perchennog yn yr eiddo? Oes ☐ Nac oes ☐

(b) A ydych yn denant sector preifat? Ydw ☐ Nac ydw ☐

(os ydych, bydd angen ichi gynnwys llythyr o ganiatâd gan eich Landlord gyda'r cais hwn)

**6.** Os ydych yn denant, a ydych yn denant gydag unrhyw un o'r canlynol: -
awdurdod lleol; corfforaeth dref newydd; corfforaeth datblygiad trefol; ymddiriedolaeth gweithredu tai; Awdurdod Datblygu Cymru; awdurdod iechyd; bwrdd iechyd cymuned neu ymddiriedolaeth iechyd GIG neu awdurdod olynol; awdurdod heddlu a sefydlwyd o dan adran 3 Deddf Heddlu 1964; awdurdod ar y cyd a sefydlwyd o dan Ran IV Deddf Llywodraeth Leol 1985; bwrdd gweddilliol a sefydlwyd o dan Ran VII y Ddeddf honno; neu awdurdod a sefydlwyd o dan adran 10(1) y Ddeddf honno (gwaredu gwastraff)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**7.** Disgrifiwch y gwaith neu'r cynllun y bwriedir ei gyflawni (ar ddalen arall ar wahân os oes angen):

.....

**8.** A oes gennych ddyletswydd neu bŵer i gyflawni'r gwaith hwn? Oes ☐ Nac oes ☐

**9.** Pwy fydd yn cyflawni'r gwaith? `
Enw:…….....…
Cyfeiriad:.....

**10.** A ydych chi neu eich partner yn derbyn unrhyw un o'r canlynol?

| RHYW FATH ARALL O: | | Chi | | | | Eich partner | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gymorth incwm? | Ydw | | Na | | Ydw | | Na | | |
| lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm? | Ydw | | Na | | Ydw | | Na | | |
| credyd treth gwaith? | Ydw | | Na | | Ydw | | Na | | |
| lwfans gweithio i'r anabl? | Ydw | | Na | | Ydw | | Na | | |
| budd-dal tai? | Ydw | | Na | | Ydw | | Na | | |
| budd-dal treth y cyngor? | Ydw | | Na | | Ydw | | Na | | |

**DATGANIAD (i'w lofnodi gan yr ymgeisydd)**

*RHYBUDD: os byddwch yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol, gallwch gael eich erlyn*

Yr wyf yn datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y manylion a roddais yn gywir

Dyddiad:..... (Llofnod):.....

**Atodiad 4**

***Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd* /**
**Head of Public Protection**
*Chris Taylor*

XXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXX

***Gwarchod y Cyhoedd* / Public Protection**
***XXXXXXXXXXXXX***
**XXXXXXXXXXX**
**XXXXXXXXXXX**

*Ffôn /* Tel *:* XXXXXXXX
*Ffacs /* Fax *:* XXXXXXXX
*E-bost /* E-mail *:* *@powys.gov.uk*
*Eich cyf /* Your ref *:*
*Ein cyf /* Our ref *:* WK/
*Dyddiad /* Date *:* 02 mars 2007

*Os yn galw gofynnwch am//*If calling please ask for*:*
**XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX**

## STRATEGAETH ADNEWYDDU TAI POWYS
## CYMERADWYO CEISIADAU CO2i 06 - 07

**Ynghylch: XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX**

Rwyf yn falch o roi gwybod ichi bod eich cais am grant i wneud y gwaith a ddisgrifir yn eich cais wedi ei gymeradwyo a gall y gwaith yn awr fynd yn ei flaen.

A chymryd bod y Cyngor yn fodlon gyda safon y gwaith, a'i fod yn cydymffurfio ym mhob ffordd gyda gofynion y strategaeth adnewyddu, bydd y grant yn cael ei dalu fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| a. | Amcanbris a gyflwynwyd | £XXXXX |
| b. | **Cyfanswm gwerth y grant:** | **£XXXXX** |
| c. | Cyfraniad y Cyflenwr Ynni | £XXXXX |
| ch. | Eich cyfraniad chi | £XXXXX |

***A fyddech gystal â chadarnhau amcanbris eich contractwr yn erbyn y ffigurau hyn, a ddylai cynnwys unrhyw flaendal sydd wedi ei dalu.***

Rhoddwyd gwybod i'ch contractwr, Domestic & General Insulation Ltd, a bydd yn cysylltu gyda chi i drefnu dyddiad cyfleus ar gyfer gwneud y gwaith. Gallwch eu ffonio nhw ar unrhyw adeg ar eu rhif ffôn i gwsmeriaid, rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ar: **0800 0132 910**.

Ceidw'r Cyngor yr hawl i archwilio'r gwaith hwn. Nid yw'r Cyngor yn goruchwylio'r gwaith yn fanwl, ac ni fydd y Cyngor yn atebol am waith gwael a wneir gan y contractwr y byddwch yn ei ddefnyddio.

Efallai y bydd angen Caniatâd Rheoliadau Adeiladu, Caniatâd Cynllunio neu Ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer y gwaith. Chi sy'n gyfrifol am ofyn am y caniatadau hyn cyn i'r gwaith ddechrau.

Bydd angen ichi lenwi ffurflen hawlio i dderbyn y grant hwn. Bydd gan y contractwr un o'r ffurflenni hyn a bydd yn gofyn ichi ei llenwi ar ôl cwblhau'r gwaith. Dylech wneud hyn **ond** pan fyddwch yn fodlon gyda'r gwaith.

Bydd y grant yn cael ei dalu os yw'r ffurflen hawlio yn cael ei derbyn o fewn **tri mis** i ddyddiad y llythyr cymeradwyo hwn.

**Atodiad 5**

**Atodiad G**

**Cyfeirnod: WK/**

**Strategaeth Adnewyddu Tai Powys**

# Ffurflen Hawlio ar gyfer Grant Gwaith Mân (Cynllun Carbon Deuocsid – $CO^2$i) 2006 - 07

***RHAID YSGRIFENNU MEWN PRIF LYTHRENNAU OS GWELWCH YN DDA, NEU DICIO'R BLYCHAU PERTHNASOL.***

1. Enw'r Ymgeisydd:……...
2. Cyfeiriad: ……

   ……

   ……..…Cod post: …….

3. Os ydych eisiau awdurdodi'r Cyngor i dalu'r grant i rywun arall heblaw chi eich hun, gallwch wneud hynny drwy roi eu henw a'u cyfeiriad isod:
   Enw: ……..……

   Cyfeiriad: ……..……Cod post: …….

4. A ydyw cost derfynol y gwaith (gan gynnwys deunyddiau) yn wahanol i'r amcanbris?
   (ticiwch y blwch perthnasol) Ydy ☐ Nac ydy ☐
   Os gwnaethoch ateb "YDY" eglurwch pam:
   ……

   ……

   ……

5. A ydych yn fodlon gyda'r gwaith?
   (ticiwch y blwch perthnasol) Ydw ☐ Nac ydw ☐
   Os gwnaethoch ateb "NAC YDW" eglurwch pam:

   ……

   ……

6. Ar ba ddyddiad y cwblhawyd y gwaith? …….

**Datganiadau:**

(a) tystiaf yma fy mod yn hollol fodlon gyda'r gwaith a wnaed i'r eiddo a'i fod wedi ei gwblhau mewn dull derbyniol a phroffesiynol ac yn gwbl unol â'r manylion a ddarparwyd gan y contractwr;
(b) mae'r wybodaeth uchod yn gywir; a
(c) mae'r anfoneb ar gyfer y gwaith yn gywir ac yn amgaeëdig.

Llofnod: ……. Dyddiad: ……..

---

**DYCHWELWCH Y FFURFLEN HON I'CH SWYDDFA ARDAL BERTHNASOL OS GWELWCH YN DDA:**

---

**Atodiad 6**

***Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd /***
Head of Public Protection
**Chris Taylor**

**Gwarchod Y Cyhoedd** / *Public Protection*
***Y Gwalia/The Gwalia***
**Llandrindod**
**Powys**
**LD1 6AA**

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

At Ddeiliad y Cartref

**Ffôn** / *Tel:* **01597 827139**
**Ffacs** / *Fax:* **01597 827275**
**E-bost** / *E-mail:* **stuartda@powys.gov.uk**
**Eich cyf** / *Your ref:*
**Ein cyf** / *Our ref:*
**Dyddiad** / *Date:* **2 mars 2007**

**Os yn galw gofynnwch am**:
*If calling please ask for:* *Stuart Davies*

Annwyl Ddeiliad,

**Ynghylch: CO2i 2005-06 – (Cynllun Carbon Deuocsid)**

Diolch ichi am eich ymholiad ynghylch Cynllun Carbon Deuocsid y Cyngor.

Rwyf yn anfon ffurflen gais atoch a rhestr o gontractwyr gwresogi / solar lleol, a fydd yn gallu rhoi cyngor ichi ar y gwahanol systemau sydd ar gael i ateb eich anghenion a hefyd yn rhoi amcanbris cystadleuol.

Rydym wedi fetio'r contractwyr hyn (cyn belled ag yr oedd hynny'n rhesymol ymarferol) i sicrhau y byddant yn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl ichi. Fodd bynnag, nid oes raid ichi ddefnyddio unrhyw un o'r cwmnïau hyn oherwydd CHI fydd yn eu cyflogi ac ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw waith gwael a wneir gan y contractwyr y byddwch yn eu defnyddio.

Felly, rydym yn awgrymu eich bod yn gofyn am o leiaf dau amcanbris gwahanol, gan gontractwyr cymwys, i sicrhau eich bod yn cael gwerth da am eich arian.

Eich cam nesaf fydd llenwi'r ffurflen gais a chynnwys copi hefyd o'r amcanbris gan y contractor y byddwch yn ei ddewis, a'u dychwelyd i'ch Swyddfa Cyngor berthnasol i'w prosesu – bydd y cyfeiriad ar ben y ffurflen gais. Cofiwch: bydd y ffurflen gais hon yn ddilys am 6 wythnos yn unig – hynny yw o'r dyddiad yn y gornel uchaf ar ochr dde'r ffurflen gais – ar ôl hynny, ni fydd yn ddilys.

Os bydd eich cais yn dderbyniol, byddwch yn derbyn llythyr cymeradwyo gan y Cyngor yn dweud wrthych faint o grant a roddir ichi.

Efallai y bydd angen caniatâd Rheoliadau Adeiladu, Caniatâd Cynllunio neu Ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer paneli solar / bwyler newydd. Chi fydd yn gyfrifol am ofyn am y caniatadau hyn cyn i'r gwaith ddechrau. I gael gafael ar eich Swyddfa Gynllunio leol, ffoniwch 01597 826000.

Mae'r grant am y gwaith solar wedi'i ddyfeisio i gyd-fynd â grant Rhaglen Adeiladu Carbon Isel yr Adran Masnach a Diwydiant (gweler www.lowcarbonbuildings.org.uk ) ar gyfer systemau a osodir yn broffesiynol yn unig, ac NID am unrhyw fath arall o system solar gan gynnwys DIY.

Yr eiddoch yn gywir,

Stuart Davies